**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/341/2023

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Llŷr

Ysgrifennaf mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Atodol) (Rhif 4) yn ymwneud â'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a gyflwynwyd a osodwyd ar 29 Medi 2023.

*Argymhelliad 1 - Dylai'r Gweinidog esbonio a yw o'r farn bod y gofyniad yng nghymal 157(5)(a) (yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi) yn briodol, a pam hynny, o gofio bod cynllun gwella amgylcheddol cyfredol Llywodraeth y DU (o dan Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021) yn ymwneud â Lloegr yn unig.*

Roedd Cymal 157(5)(a) fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi yn annerbyniol. Hysbyswyd Llywodraeth y DU am yr hyn a oedd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn ddarpariaeth gyfatebol briodol yng Nghymru ar gyfer y 'cynllun gwella amgylcheddol', ond ni chafodd hyn ei gynnwys mewn diwygiadau blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio unioni hyn drwy gyflwyno diwygiad yn lle Diwygiad 90 Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r diwygiad hwn wedi'i gynnwys ym Memorandwm Atodol Rhif 5. Byddai'r diwygiad hwn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth weithredu'n annibynnol a phennu'r canlyniadau amgylcheddol penodedig, ystyried y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol cyfredol yn unol ag ystyr adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

*Argymhelliad 2 - Dylai'r Gweinidog esbonio pam mae o'r farn ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael pwerau i wneud rheoliadau data cynllunio a rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig.*

Roedd y Bil yn dechrau mewn modd annerbyniol iawn drwy gynnwys darpariaethau dalfan a oedd yn rhoi'r pwerau i Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu o fewn cymhwysedd datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr unig gydnabyddiaeth i ddatganoli oedd gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau data cynllunio a rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol. O ganlyniad i waith ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae'r gofynion ymgynghori wedi'u diwygio i ddod yn ofyniad cydsyniad. Mae hyn yn golygu bod gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu ar gyfer gofyniad ymgynghori mewn sefyllfaoedd lle y rhoddir swyddogaeth newydd i un o awdurdodau datganoledig Cymru, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, neu y caiff swyddogaeth ei haddasu neu ei dileu, o dan reoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer mater a gedwir yn ôl.

O ystyried mesurau diogelu'r system gydsynio, credaf fod angen cymhwyso Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU mewn modd pragmataidd yn yr achos hwn. Bydd hyn yn galluogi buddiannau posibl y Bil, fel y'u nodir yn fy Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, i osgoi anghysondebau ac ansicrwydd yn y gyfraith a fyddai'n codi fel arall a galluogi llwybrau cydsynio di-dor ar gyfer cynlluniau ar draws awdurdodaethau.

Byddai Llywodraeth y DU yn cymhwyso'r dull o ymdrin ag Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol at gyfundrefnau cydsynio a gedwir yn ôl ni waeth a gaiff ei gymhwyso at gyfundrefnau datganoledig ai peidio. Felly, mae'n hollbwysig bod gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau i'w defnyddio os bydd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau y darperir yn briodol ar gyfer prosiectau ar draws awdurdodaethau, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu derbyn dull cydamserol.

*Argymhelliad 3 - Dylai'r Gweinidog esbonio o dan ba amgylchiadau y byddai Gweinidog Cymru yn cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau data cynllunio a rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig.*

Er mwyn cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol yn annibynnol, byddai angen i ddiben y ddeddfwriaeth fod yn fater technegol bach iawn lle nad yw'r budd yn fwy na chost Gweinidogion yn ei ddrafftio eu hunain. Ni allaf ragweld y bydd y sefyllfa hon yn codi.

Mae defnydd ar y cyd o'r pwerau yn senario mwy tebygol i wneud rheoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol mewn meysydd lle mae prosiectau ar draws awdurdodaethau yn digwydd yn aml. Caniatadau morol yw'r maes mwyaf tebygol lle mae'n gwneud synnwyr cysoni prosesau er mwyn osgoi dyblygu a gweithdrefnau ychwanegol. Byddai'n rhaid i unrhyw reoliadau a wnaed ar y cyd gael eu datblygu drwy ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid yng Nghymru.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change